Prosiect Gwyrdd
PROJECT GREEN

Annwyl Randdeiliad,

Yn dilyn cyhoeddi'r rhestr fer ar gyfer y contract Prosiect Gwyrdd yn ddiweddar, bydd y bartneriaeth yn cynnal sesiynau gwybodaeth, galw heibio, yn agos i ardaloedd lle nodwyd safleoedd posibl, fel y gall trigolion gael y cyfle i holi'r bartneriaeth.

Bydd y sesiynau galw heibio'n digwydd ar y diwrnodau a'r amseroedd canlynol yn y lleoliadau isod:

- 7 Mawrth (11am tan 2 pm): Canolfan Gymunedol Fochriw, Fochriw.
- 8 Mawrth (5 pm tan 8pm): Canolfan Gymunedol Dewi Sant, Rhymni.
- 9 Mawrth (5 pm tan 8pm): Ystafelloedd Corfforaethol, Swyddfeydd Dinesig, Holton Road, Y Barri
- 10 Mawrth (5 pm tan 8pm): Stadiwm Pêl-droed NISV, Casnewydd.
- 11 Mawrth (11am tan 2 pm): Stadiwm Pêl-droed NISV, Casnewydd.
- 14 Mawrth (11am tan 2 pm): Neuadd y Sir, Bae Caerdydd
- 15 Mawrth (5 pm tan 8pm): Pafiliwn Bowlio Sblot, Caerdydd
- 16 Mawrth (11am tan 2 pm): Canolfan Gymunedol Palmerston, Y Barri
- 19 Mawrth (11am tan 4 pm): Abergavenny High Street, Y Fenni

"Mae pob awdurdod partner wedi datblygu strategaethau gwastraff i reoli'r gwastraff yr ydym oll yn ei gynhyrchu. Mae gan bawb rôl i'w chwarae yn y gwaith o leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu cymaint o wastraff â phosibl. Bydd y rhan fwyaf o'r gwastraff yn cael ei ailgyfeirio ar ymyl y ffordd drwy fentrau ailgylchu a chompostio. Mae'n hanfodol i'r cyhoedd ddeall y bydd y project yn darparu datrysiad ar gyfer trin gwastraff bin/bagiau du, nad yw'n ymarferol eu hailgylchu neu eu compostio.

Mae'r cwmnïau llwyddiannus wedi cyflwyno datrysiadau ar sail y mathau o wastraff fydd yn weddill wedi i'r rhan fwyaf o'r gwastraff, y gellir ei ailgylchu a'i gompostio'n ymarferol, gael ei ailgyfeirio drwy fentrau Cyngor.

Cynhelir y digwyddiadau hyn yn ystod amser cinio a gyda'r nos i roi'r cyfle i drigolion siarad â'r bartneriaeth a'u holi. Mae'r angen i newid y ffordd y rheolir gwastraff yng Nghymru yn gwbl amlwg, ac ni ellir parhau ag anfon y rhan fwyaf o wastraff i'w dirlenwi. Mae profiad Ewrop yn dangos y gall triniaethau gwastraff gweddilliol fod yn effeithiol â chyfraddau ailgylchu a chompostio uchel.

Gan mai Sir Fynwy yw'r unig ardal awdurdod partner lle nad oes safle wedi'i gynnig, trefnwyd sioe deithiol, fel y gall trigolion yn yr ardal hon barhau i gael gwybodaeth am y bartneriaeth.

Mae'r wybodaeth wedi cael ei hanfon i'r cyfryngau a bydd posteri'n hysbysebu'r digwyddiadau'n cael eu codi yn yr ardaloedd lleol ble cynhelir y digwyddiadau.

Cofion cynnes,

Prosiect Gwyrdd

Caerphilly County Borough Council / Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Cardiff Caerdydd
Cyngor monmouthshire County Council sir fynwy
Newport City Council Cyngor Dinas Casnewydd
Vale of Glamorgan Bro Morgannwg
Llywodraeth Cynulliad Cymru Welsh Assembly Government